PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

BEITIAU BUSNES @ BANGOR

Issue 5 Summer 2010 www.themanagement centre.co.uk

YSGOL | BUSNES | BANGOR
Addysg i Swyddogion Gweithredol

MAE RHEOLAETH YN BWYSIG ...

CROESO...

...i rifyn Haf 2010 o Business Bytes@ Bangor, y cylchlythyr ar gyfer Clwb Busnes Prifysgol Bangor a'r Ganolfan Rheolaeth.

Diben y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybodaeth i aelodau'r Clwb Busnes am y syniadau a'r datblygiadau diweddaraf, newyddion a barn gwahanol arbenigwyr. Ceir gwybodaeth hefyd am y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ar gael i bawb drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau'r Ganolfan Rheolaeth.

Eich cylchlythyr chi yw hwn a byddem yn gwerthfawrogi cyfraniadau gennych, boed yn newyddion neu sylwadau am faterion cyfoes yr hoffech eu rhannu â ni, neu os hoffech gael sylw yn ein colofn reolaidd sy'n canolbwyntio ar rai cyrff neu ddatblygiadau.

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau golygyddol neu ymholiadau drwy e-bost at:
businessbytes@bangor.ac.uk

Tanya Keith
Cyfarwyddwr Digwyddiadau a Lleoliadau

AGORED AM FUSNES? BETH, I MINNAU HEFYD?

Un o'r prif ffactorau a fydd yn pennu cyflymder yr adferiad economaidd fydd gweld hyder yn dod yn ôl i fusnesau bychain a chanolig (SMEs). Mae hyn yn neilltuol bwysig yng Ngogledd Cymru gan fod gan y rhanbarth nifer fawr o fusnesau bychain, nifer weddol o fusnesau canolig eu maint, ond ychydig iawn o gwmnïau mawr. Os yw strategaeth llywodraeth glymblaid San Steffan o drosglwyddo cyflogaeth o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat i gael unrhyw siawns o lwyddo, yn sicr swyddi a fydd yn cael eu creu gan y sector SME fydd yn gwneud hynny.

Am y rhesymau hynny mae'n hanfodol fod y banciau'n llawer mwy parod i roi benthyciadau i'r sector yma a hynny'n ddiymdroi. Mae'r holl fanciau'n honni eu bod yn 'agored am fusnes' gan ddweud eu bod yn cymeradwyo tua 80% o geisiadau am fenthyciadau. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn cael ei gadarnhau gan ystadegau swyddogol. Mae'r ffigurau diweddaraf i'w cyhoeddi gan y British Bankers Association (BBA) a Banc Lloegr yn dangos bod llif benthyca o fanciau i fusnesau yn y DU o 2009 i Fai 2010 yn £6bn negyddol. Gellir cymharu hyn â chynnydd mewn benthyca o + £7bn yn 2007 ac ychydig is na +£4bn yn 2008. Ymateb i banciau i hyn yw bod yna ddiffyg galw am fenthyciadau, sy'n adlewyrchu ysbryd y dirwasgiad. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sy'n dod o SMEs yn rhoi'r argraff bod y telerau ac amodau y mae'r banciau'n eu rhoi ar gyfleusterau newydd, a hyd yn oed rai sy'n bodoli eisoes, yn rhwystr mawr rhag iddynt gymryd benthyciadau newydd.

Ni ellir caniatáu i'r sefyllfa hon barhau. Ychydig iawn o siawns sydd yna o weld adferiad o unrhyw sylwedd mewn rhanbarth fel Cymru (a Gogledd Cymru yn arbennig) nes bydd y banciau'n sicrhau bod benthyca fforddiadwy i'w gael unwaith eto. Os hoffai unrhyw aelod o'r Clwb Busnes anfon eu profiad personol ataf i'r Ganolfan Rheolaeth o ddiffyg cefnogaeth gan eu banc, yna byddaf yn barod iawn i anfon y wybodaeth ymlaen at Lywodraeth y Cynulliad ac at yr Ysgrifennydd Busnes, Dr Vince Cable, er gwybodaeth iddynt.

Yn y pen draw, fe all pwysau digonol i newid y sefyllfa bresennol er gwell.

Colyn Gardner,
CEO of The Management Centre

YN Y RHIFYN HWN

Mae Rheolaeth yn Bwysig

Parti Haf Mawr Busnes

MBA Bangor yn Rhoi Hwb i Fusnes

Pŵer Pryniant

Cyllid ar gyfer Gweithdai Arweinyddiaeth a Rheolaeth

CANOLBWYTIO AR

Santander

Gweithgaredd i ddod – Rhoi Hwb i'ch Busnes gyda Twitter

I roi sylw i'ch busnes yn y golofn hon, anfonwch e-bost at: businessbytes@bangor.ac.uk

Clwb Busnes Prifysgol BANGOR University Business Club

T:+ 44 (0) 1248 365900
E:info@themanagementcentre.co.uk

PARTI HAF MAWR BUSNES

Yn dilyn llwyddiant Parti Nadolig Mawr Busnes y llynedd, roedd yn bleser mawr gan Brifysgol Bangor gynnal ei Bari Haf Mawr Busnes blynyddol cyntaf yn gynharach y mis hwn mewn cydweithrediad ag Ysgol Busnes Bangor, rhwydweithiau busnes lleol, Rhwydwaith Busnes Gwynedd, Busnes ym Môn a Chlwb Busnes PB.

Yn ystod y gweithgaredd, a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf yn y Ganolfan Rheolaeth ar Ffordd y Coleg, rhoddwyd sylw i broject mawr newydd y Brifysgol, sef PONTIO. Daeth dros 160 o westeion busnes isur, achlysur, yn cynrychioli trawstoriad da o SME's, corfforaethau mawr ac unigolion o'r sectorau preifat a chyhoeddus.

Yn ogystal â mwynhau noson o adloniant bywiog gan fand lleol Good Life Trio a'r gantores Ami Whittle, cafodd y gwesteion wybod mwy am Ganolfan y Celfyddydau ac Arloesi PONTIO, a fydd yn agor ei drysau i'r cyhoedd yn 2012. Mae cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd eiconig ar y gweill a bydd Canolfan PONTIO yn safle ar gyfer cynyrchiadau theatr o safon uchel, ffilm, cerddoriaeth, syrcas, dawns a chelfyddydau perfformio arloesol eraill.

Yn ogystal â Chanolbwynt Arloesi deinamig, cyfleusterau addysgu a dysgu blaengar a chartref newydd i Undeb y Myfyrwyr, bydd gan Ganolfan PONTIO theatr gyda dros 500 o seddau, sinema, theatr stiwdio ac amffitheatr awyr agored. Bydd yno gyfleusterau cymdeithasol newydd cyffrous, yn cynnwys bwyty, bariau a pharc dymunol ar gyfer teuluoedd. Nod y Ganolfan yw adeiladu pontydd rhwng y celfyddydau a'r gwyddorau, rhwng y Brifysgol a'r gymuned leol a rhwng Bangor a'r byd ehangach. Bydd ei pherfformiadau cyhoeddus yn dod yn ganolbwynt o bwys ar gyfer y diwylliant Cymraeg a Chymreig.

Cyfrannodd pob rhwydwaith at Barti Haf Mawr Busnes drwy eu cefnogaeth, nawdd neu roddion at y raffl. Mae'r holl elw o'r raffl – sef £700 – yn mynd i gael ei rannu'n gyfartal rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a Chymdeithas Achub ar y Mynyddoedd Gogledd Cymru. Diolchir yn arbennig i John Lloyd yng Ngwaith Llechi Inigo Jones am ei gyfraniad o roddion, ac hefyd i Gamlins – Cyfreithwyr, a wnaeth nid yn unig noddi bwrdd ond hefyd gyfrannu at yr ocsiwn.

Gyda Pharti Haf Mawr Busnes yn gymaint o lwyddiant, rydym yn edrych ymlaen yn awr at Barti Nadolig Mawr Busnes ar 16 Rhagfyr.

T:+ 44 (0) 1248 365900
E:info@themanagementcentre.co.uk

PŴER PRYNIANT



Mae pob busnes a sefydliad yn edrych ar ffyrdd o reoli eu costau'n effeithiol a chymryd camau i gefnogi eu cynaladwyedd. Oherwydd yr hinsawdd economaidd anodd a t horiadau yn y sector cyhoeddus, mae mwy a mwy o sefydliadau'n edrych yn fanwl iawn ar eu prosesau pryniant. Tra ystyrid pryniant ar un adeg fel swyddogaeth weinyddol, mae'n dod yr un mor bwysig erbyn hyn â chynhyrchu incwm ac edrychir arno fel mater o bwys strategol.

Erbyn hyn mae'r Llywodraeth yn rhoi sylw cynyddol i ddulliau gweithredu gorau yn y sector preifat – ac mae'n hen bryd i hynny ddigwydd pan ystyriwch fod menter breifat wedi gorfod cystadlu mewn marchnad agored a chynnal ei chynaladwyedd heb ymyriad y llywodraeth. Er y cydnabyddir bod cyfyngiadau ar y sector cyhoeddus, megis Cyfarwyddeb Bryniant yr UE, ni ddylai hynny fod yn rheswm dros ddiystyru dulliau gweithredu gorau.

Y llynedd, gwariodd y GIG tua 15 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau a brynwyd. Byddai arbed dim ond 5% o hynny yn arbediad o £75 miliwn – meddyliwch faint y gallai hynny ei gyfrannu tuag at gynnal gwasanaeth o safon uchel!

Trwy ddatblygu'n effeithiol y bobl hynny a all ddylanwadu ar wariant sefydliadau, bydd yr hyfforddiant yn sicr yn werth y buddsoddiad ynddo i'r sefydliadau hynny.

Yn ddiweddar, cafodd y Ganolfan Rheolaeth yn Ysgol Busnes Bangor ei hachredu fel Canolfan o Ragoriaeth i gyflwyno rhaglenni'r Chartered Institute of Purchasing and Supply (CIPS). Rhoddwyd yr achrediad hwn i'r ganolfan ar sail canlyniadau eithriadol mewn arholiadau, uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ansawdd uchel y cyflwyno a'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr, a safon a phrofiad byd-eang y tiwtoriaid.

Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn cydnabod mai dim ond rhai gyda phrofiad ymarferol cyfredol a pherthnasol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a all roi gwybodaeth a chefnogaeth o safon i'r rhai a ddaw ar y rhaglenni a'u paratoi ar gyfer cymhwyster academaidd cydnabyddedig.

Meddai David Roberts, Cyfarwyddwr Rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac Uwch Arholwr CIPS:

"Gall anwybyddu'r dylanwad y gall pryniant effeithiol ei gael ar sylfaen gost sefydliad beryglu ansawdd darpariaeth gwasanaethau ac elw posibl. Dylid cydnabod bod angen canolbwyntio'n strategol ar y swyddogaeth bryniant. Dim ond trwy gael pobl gyda'r sgiliau iawn yn y swyddi hyn y gellir cyflawni hynny."

Mae amrywiaeth o gyrsiau ar bryniant a chyflenwi ar gael yn y Ganolfan Rheolaeth ac ar hyn o bryd rydym yn cofrestru ar gyfer cyrsiau sydd i ddechrau o 14 Medi.

Am fwy o wybodaeth ar y cyrsiau sydd ar gael, cysylltwch â David Roberts, Cyfarwyddwr Rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar **01248 365997** neu **david.w.roberts@bangor.ac.uk**

Santander

BANCIO O DDYDD I DDYDD AM DDIM I FUSNESAU

Annwyl Aelodau'r Clwb Busnes,

Hoffwn fy nghyflwyno fy hun fel Rheolwr Cangen Santander ym Mhrifysgol Bangor. Fel y gwyddoch efallai, mae gan Brifysgolion Santander berthynas allweddol â Phrifysgol Bangor i gefnogi gwahanol gynlluniau, yn cynnwys Grantiau Entrepreneuriaeth a Byrddau Crwn. Mae Santander wedi ymrwymo i gefnogi addysg uwch, gyda dros 850 o brifysgolion led led y byd, ac mae wedi cyfrannu £500 miliwn i brifysgolion er 1996. Yn 2009 yn unig, fe wnaethom ddyfarnu dros 17,000 o ysgoloriaethau ar gyfer astudio ac ymchwil.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi cymunedau lleol, mae Santander yn cynnig cyfrif Banc Busnes o ddydd i ddydd am ddim, cyn belled â'ch bod yn gweithredu o fewn cyfyngiadau hael o ran trafodion ariannol. P'un a ydych yn dechrau busnes newydd, neu'n gweithredu eisoes ers peth amser, gellwch fanteisio ar y cynnig hwn drwy ddefnyddio ein tîm Trosglwyddo Cyfrif. Gallai hyn yn wirioneddol eich helpu chi a'ch busnes i arbed arian. Yn ogystal, gall Santander gynnig cyfraddau rhagorol i fusnesau ar gynilion, benthyciadau a morgeisi masnachol.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth yma'n ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi ar 07527792662, neu drwy e-bost at **Veselina.vasileva@santander.co.uk**, a byddaf yn barod iawn i ateb eich holl gwestiynau.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Cofion caredig,
Veselina Vasileva

T:+ 44 (0) 1248 365900
E:info@themanagementcentre.co.uk

MBA BANGOR YN RHOI HWB I FUSNES

Mae'r rhaglen MBA yn Y Ganolfan Rheolaeth, Ysgol Busnes Bangor wedi cael ei graddedigion cyntaf ac maent eisoes wedi mynd ati i roi'r wybodaeth a gawsant drwy'r rhaglen ar waith.

Mae dau o'r myfyrwyr a raddiodd yn ddiweddar o'r cwrs MBA Uwch yn Y Ganolfan Rheolaeth wedi lansio menter newydd – a dywed yr holl raddedigion bod y cwrs wedi helpu i roi dimensiwn newydd i'w ffordd o feddwl.

Dywedodd Robert Smith, Cyfarwyddwr y Rhaglen MBA Uwch, fod y safon ymysg y garfan gyntaf o fyfyrwyr i raddio wedi bod yn 'rhagorol'.

"Yr hyn sy'n digwydd yn anochel ymysg myfyrwyr dros gyfnod tair blynedd y rhaglen yw eu bod yn dechrau meddwl yn wahanol a hefyd ddod yn fwy hyderus ac mae hynny'n eu galluogi i ddod â syniadau newydd i mewn i'w gweithleoedd," meddai.

"Rhan o'r rheswm dros gynnal y rhaglen yma yw helpu i gryfhau economi Gogledd Cymru. Ei diben yn rhannol ydi i roi gwybodaeth, arbenigedd a sgiliau i'r gweithlu, a hynny nid dim ond i gwmnïau a busnesau'n unig, ond hefyd i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a chyrff trydydd sector i'w galluogi i ddisgleirio yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud."

Ychwanegodd Robert fod y cwrs hefyd o gymorth i wneud y myfyrwyr feddwl yn fwy creadigol ac mewn gwahanol ffyrdd wrth fynd i'r afael â phroblemau.

Dechreuodd Richard Edwards fusnes newydd tra oedd yn astudio ar y cwrs MBA Uwch. Sefydlwyd y cwmni ym Mawrth 2009 gyda chyd-fyfyriwr ar y cwrs, Andrew Rosewarne.

Sefydlwyd GDS Laboratories ym Mharc Menai, Bangor, fel tŷ profi wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Gamblo. Mae'n rhoi gwasanaethau profi i'r diwydiant gamblo cyfreithlon gan sicrhau bod peiriannau hap chware, peiriannau Casino, terfynellau betio, safleoedd hap chwarae ar-lein ac eraill yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Ffurfiodd y cwmni bartneriaeth â NMi – Netherlands Metrology Institute – gyda NMi yn dal cyfranddaliadau yn GDS Laboratories, a newidiodd ei enw i NMi UK. Daliodd y rheolwr gyfarwyddwr, Dr Edwards, a Mr Rosewarne, reolaeth weithrediadol dros y fenter newydd.

Meddai Dr Edwards: "Fe wnaeth yr MBA Uwch ein helpu i gael yr hyder i sefydlu'r busnes a'i hyrwyddo mor gyflym. Roedd rhaid i ni gael digon o hunanhyder wrth fynd i drafodaethau gyda'r grŵp o'r Iseldiroedd.

"Mae gan ein busnes y potensial i greu mwy o swyddi yng Ngogledd Cymru. Dim ond dechrau pethau yw profi systemau hap chwarae. Mewn meteoroleg y mae diddordeb pennaf y grŵp, sy'n wyddor fesur, ac mae'r diwydiannau mawr y maen nhw'n cynnig gwasanaethau iddynt yn cynnwys olew a nwy a monitro traffig. Gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad a'r brifysgol gallwn ddatblygu'r busnes yn rhywbeth sylweddol a chreu swyddi newydd os gallwn fynd i mewn i'r marchnadoedd yma."

Dywedodd Mr Rosewarne ei fod yn credu bod yr MBA Uwch yn addas iawn ar gyfer anghenion pobl sy'n meddwl sefydlu busnesau bychain. "Rhyw flwyddyn ar ôl i ni ddechrau ar y cwrs fe wnaethom benderfynu sefydlu'r busnes. Roeddem yn dysgu llawer o bethau, fel sut i godi cyllid. Fe ddaeth y cyfle ac fe wnaethom benderfynu rhoi cynnig arni gan ein bod wrthi'n dysgu am yr union bethau hynny. Fe roddodd hyder i ni i ddechrau'r cwmni."

Un arall o raddedigion y rhaglen oedd Miss Jones, 27, o Ddinbych sy'n gweithio i Ymweld â Chymru fel swyddog cysylltiadau â'r cyfryngau. Meddai, "Mae'r rhaglen MBA wedi rhoi mwy o hyder i mi yn fy ngwaith. Mae'n debyg mai un o'r pethau nad oeddwn wedi disgwyl ei gael o'r cwrs oedd dysgu cymaint oddi wrth fy nghyd-fyfyrwyr, ond rwyf wedi dysgu llawer iawn oddi wrthynt gan eu bod yn bobl mewn swyddi uwch yn eu gwahanol sefydliadau ac yn entrepreneuriaid a oedd wedi dechrau eu busnesau eu hunain."

Bydd y mewnlif nesaf i'r MBA Uwch ym mis Hydref. Os hoffech gael gwybodaeth bellach am y rhaglen, neu am ffynonellau cyllid posibl, cysylltwch â Robert Smith, Cyfarwyddwr y Rhaglen MBA Uwch, ar **01248 365982** neu e-bost **robert.smith@bangor.ac.uk**

T:+ 44 (0) 1248 365900
E:info@themanagementcentre.co.uk

CYLLID AR GYFER GWEITHDAI ARWEINDDIAETH A RHEOLAETH

Yn ddiweddar cafodd y Ganolfan Rheolaeth gontract i gyflwyno Gweithdai Arweinyddiaeth a Rheolaeth wedi eu hachredu, fel rhan o gynllun ELMS (Cryfhau Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheolaeth) Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r gweithdai, y cyllidir 70% ohonynt, yn canolbwyntio ar ddatblygu Hunanymwybyddiaeth – gweld pwy ydych a pham rydych yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn fel yr ydych. Heb fod yn ymwybodol ohonoch eich hun rydych yn debygol o ailadrodd yr un camgymeriadau a heb adnabod eich hun ni allwch fyth dorri drwy rwystrau mewnol i'ch datblygiad personol a thwf eraill.

Mae'r rhaglen datblygu Hunanymwybyddiaeth yn helpu rheolwyr i weld bylchau yn eu sgiliau rheolaeth, sy'n hyrwyddo datblygu sgiliau. Mae hunanymwybyddiaeth hefyd yn helpu rheolwyr i ddarganfod sefyllfaoedd y byddant fwyaf effeithiol ynddynt ac mae o gymorth i reoli straen a hybu cymhelliant.

Gellir addasu'r rhaglenni ar gyfer anghenion arweinwyr a rheolwyr ym mhob cam o'u datblygiad, o reolwyr sydd newydd ddechrau ar eu gyrfa i arweinwyr a rheolwyr uwch.

Mae'r rhaglen yn dechrau gyda gweithdy 3 diwrnod, gyda chefnogaeth hyfforddi wedyn yn y gweithle. Yn ceir gweithdy arall 3 diwrnod a fydd yn canolbwyntio ar sut i gymhwyso'r wybodaeth o'r gweithdy cyntaf at y gweithle ac ymdrinnir â materion fel gweithio mewn timau, datrys problemau, gwneud penderfyniadau ac, yn y pen draw, sut i gael y llwyddiant gorau posibl gydag eraill.

Dyddiadau'r Gweithdai
Gweithdy 1: Mercher 29 Medi – Gwener 1 Hydref
Gweithdy 2: Mercher 3 – Gwener 5 Tachwedd

Am wybodaeth bellach, neu i gofrestru ar y rhaglen, cysylltwch â Lisa Paxman ar **01248 365916** neu e-bost **l.paxman@bangor.ac.uk**

FORTHCOMING EVENT

RHOWCH HWB I'CH BUSNES GYDA TWITTER...

Yn dilyn gweithdai llwyddiannus ym Mharc Menai a Chanolfan Busnes Glasdir gyda Bill Hilton yn gynharach eleni, mae VR Link yn cynnig gweithdy hanner diwrnod AM DDIM, yn benodol i helpu defnyddwyr busnesau bychain i ddeall a datblygu Twitter, offer rhwydweithio cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cydweithio a marchnata ar-lein.

Cynhelir y gweithdy yn y Ganolfan Rheolaeth ddydd Iau, 26 Awst. Cofrestru a choffi o 9.00am, gweithdy'n dechrau am 9.30am tan 12.30pm.

Bydd y gweithdy, a gyflwynir gan Bill Hilton, o 'Bill Hilton Media', yn ymdrin ag ystod o fanteision y gall Twitter eu rhoi i fusnesau bychain am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys sut i farchnata a hyrwyddo eich busnes trwy Twitter; rhwydweithio ymysg cwsmeriaid, cyflenwyr a chyfoedion; cysylltiadau cyhoeddus eithriadol gyflym a sut y gellir defnyddio Twitter fel offer ymchwilio i'r farchnad.

Am wybodaeth bellach ac i gofrestru, cysylltwch â Dr. Robert Gittins, ar **07764786419** neu e-bost **r.gittins@bangor.ac.uk**